

Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg

Medi 2024 - Medi 2025



Cynnwys

Cefndir	3
Crynodeb Gweithredol.....	4
Sut rydym yn cydymffurfio â'n safonau Cymraeg	5
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	6
Safonau Llundio Polisi	12
Safonau Gweithredu	13
Safonau Cadw Cofnodion	19
Hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein grantiau	20
Casgliad ac argymhellion	23
Atebolrwydd	25

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw'r ariannwr cymunedol mwyaf yn y DU, sy'n gyfrifol am ddosbarthu arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Rydym ni'n cefnogi gweithgareddau sy'n creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol ac yn amgylcheddol gynaliadwy – gweithgareddau a fydd yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau. Rydym ni wedi bod yn gweithredu fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ers mis Ionawr 2019. Cyn hyn, roeddem yn gweithredu fel Cronfa'r Loteri Fawr. Rhwng Medi 2024 ac Awst 2025, fe wnaethom ddyfarnu 1,110 o grantiau yng Nghymru gwerth cyfanswm o £60 miliwn.

Rydym yn falch o weithredu fel sefydliad dwyieithog ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog o safon uchel i'r cyhoedd, yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol i'n cydweithwyr. Yn y modd hwn, rydym yn cefnogi prosiectau sy'n annog defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau drwy ein grantiau.

Yn 2011, daeth Mesur y Gymraeg i rym gan sefydlu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Sefydlodd y Mesur hefyd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n hwyluso defnydd y Gymraeg drwy waith rheoleiddio a hyrwyddo.

Daeth y gofyniad i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i rym ym mis Ionawr 2017. Mae hyn wedi ein galluogi i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gronfa. Mae rhestr lawn o Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i ni yn ein [Hysbysiad Cydymffurfio](#), yn unol â Mesur y Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ac yn amlygu ein llwyddiannau dros y flwyddyn 2024 – 2025. Rydym ni hefyd yn edrych ar unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu sydd eu hangen yn y flwyddyn i ddod.



Crynodeb Gweithredol

- Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion ynglŷn â'n gwasanaethau Cymraeg eleni.
- Mae'r deunyddiau ar gyfer yr holl raglenni ariannu newydd a diwedddareidig sy'n berthnasol i Gymru yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg – er enghraifft, ym mis Medi y llynedd fe wnaethom ni lansio'r rhaglen ariannu Pawb a'i Le wedi'i hadnewyddu ac ym mis Awst eleni, fe wnaethom ni lansio rhaglen ariannu newydd o'r enw Meithrin Natur.
- Ail-lansiodd y tîm Technoleg eu tudalen mewnnewydd, sydd ar gael yn llawn yn Gymraeg am y tro cyntaf.
- Dathlodd y Loteri Genedlaethol ei phen-blwydd yn 30 ddiwedd y llynedd, ac ystyriwyd y Gymraeg ym mhob agwedd o'r dathliad, yn fewnol ac yn allanol.
- Rydym ni wedi cynnal ein blog a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog, gan gynnwys Facebook a LinkedIn.
- Rydym ni'n sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn cael ei gynnwys yn ein cylchlythyr misol dwyieithog sy'n cael ei anfon at dros 1,700 o'n deiliaid grant yng Nghymru.
- Rydym ni'n cynnig gwasanaethau dwyieithog ar gyfer yr holl ddigwyddiadau rydym ni'n eu cynnal, gan alluogi ein rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y Gymraeg.
- Rydym ni'n sicrhau bod swyddi yng Nghymru neu ledled y DU yn cael eu hysbysebu yn ddwyieithog ac rydym yn ystyried anghenion ieithyddol rolau.
- Rydym ni'n parhau i ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu unrhyw bolisiau newydd neu bresennol. Rydym ni'n defnyddio ein hadnodd Asesu Effaith ar Degwch wrth ddatblygu unrhyw bolisi neu raglen newydd i ystyried goblygiadau Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) ac unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg.
- Rydym ni'n parhau i brofi deunyddiau ymgeisio gyda chwsmeriaid Cymraeg. Eleni fe wnaethom ni brofi deunyddiau ar gyfer ein rhaglen newydd Meithrin Natur a chael adborth cadarnhaol.
- Rydym ni'n cefnogi staff i ddefnyddio eu Cymraeg ym mhob agwedd ar eu gwaith. Anfonwyd arolwg at ein cydweithwyr i asesu eu sgiliau iaith Gymraeg ac rydym ni wedi archwilio adborth ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ymhellach yn y gweithle.
- Rydym yn parhau i gefnogi cydweithwyr i ddysgu a gwella eu Cymraeg drwy gynnig cyrsiau Dysgu Cymraeg a chynnal sgysiau anffurfiol rhwng ein dysgwyr, Swyddog y Gymraeg a'n cyfieithydd mewnol.
- Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Eleni fe wnaethom ni ddechrau ymgorffori sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ein hyfforddiant Sefydlu Corfforaethol misol i staff newydd ledled y DU.
- Rydym ni wedi hyrwyddo diwylliant Cymru yn fewnol ac yn allanol trwy ddathlu dyddiadau pwysig yng nghalendr Cymru.
- Rydym ni'n parhau i gefnogi ein deiliaid grant i hyrwyddo'r Gymraeg drwy eu grantiau.
- Rydym ni'n ariannu amrywiaeth o grwpiau ledled Cymru sy'n annog ac yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Sut rydym yn cydymffurfio â'n safonau Cymraeg

Rydym ni wedi creu [dogfen](#) sy'n crynhoi sut rydym ni'n cydymffurfio â'r safonau. Rydym ni hefyd wedi creu dogfen sy'n amlinellu sut rydym ni'n goruchwyllo [cydymffurfio, hyrwyddo a hwyluso](#) ein safonau Cymraeg, yn unol â safonau 151, 157 a 163.

Mae cydymffurfio â'n safonau Cymraeg yn brofiad cadarnhaol i ni gan ei fod yn cryfhau'r gwasanaeth dwyieithog rydym ni'n ei gynnig i'n cwsmeriaid a'n deiliaid grantiau, ac yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'n cydweithwyr.

Mae'r safonau yn galluogi ein tîm Cymraeg i gydweithio'n agosach â'n timau canolog sydd wedi'u lleoli ledled y DU, gan gynnwys Adnoddau Dynol (Tîm Pobl), timau ariannu ledled y DU, Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'r tîm Tystiolaeth ac Effaith. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gweithredu ei safonau o dan y categorïau Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion.



Datblygu Egni Gwledig, Cymru'

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Rydym ni'n falch o gynnig gwasanaethau dwyieithog i'n hymgeiswyr a'n deiliaid grant drwy gydol cyfnod eu grant. Mae ein llinell ymholiadau wedi'i staffio gan siaradwyr dwyieithog, mae'r holl ddeunyddiau canllawiau ac ymgeisio ar gael yn ddwyieithog ac mae cydweithwyr Cymraeg eu hiaith yn asesu ac yn rheoli grantiau ar gyfer grwpiau sydd wedi dewis gwneud cais drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau 1-7, 8-22, 33-47 a 67-71.

Ar hyn o bryd, mae 55% (21 allan o 38) o gydweithwyr yng Nghymru yn siarad Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, sy'n gynydd o ganran y llynedd sef 51%. Mae un aelod o Bwyllgor Cymru yn siaradwr Cymraeg, ac felly mae holl gyfarfodydd Pwyllgor Cymru wedi cael eu cynnal yn ddwyieithog ers 2021 gyda darpariaeth cyfieithydd ar y pryd, yn unol â safonau 24-32. Yn ogystal, mae pum cydweithiwr sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru hefyd yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr, sy'n ein galluogi ymhellach i ystyried yr iaith fel rhan o'n gwaith ledled y DU. Gyda chymaint o siaradwyr Cymraeg yn y Gronfa, mae'n hawdd i ni hwyluso gwasanaethau Cymraeg i'n cwsmeriaid.

Mae'r rhan fwyaf o gydweithwyr yn gweithio ar sail hybrid (h.y. cyfuniad o weithio gartref ac yn ein swyddfeydd). Ein prif gyswllt ag aelodau o'r cyhoedd yw trwy ein llinell ymholiadau, neu mewn digwyddiadau allgymorth sy'n ddwyieithog. Mae'r Gymraeg yn parhau i gael lle amlwg yn ein swyddfeydd, wrth i ni barhau i ddefnyddio adnoddau Cymraeg Gwaith Comisiynydd y Gymraeg ac arddangos ein siarter iaith.

Rydym ni hefyd yn defnyddio logos Cymraeg Gwaith ar ein eiconau Teams a'n llofnodion e-bost i hwyluso cyfathrebu dwyieithog. Mae'r swyddogaeth cyfieithu ar y pryd ar Microsoft Teams yn ein galluogi i gynnal cyfarfodydd a chyfweiliadau rhithiol yn ddwyieithog. Rydym ni wedi creu dogfen ganllaw fewnol i gynorthwyo cydweithwyr i ddefnyddio'r swyddogaeth hon yn effeithiol, sydd ar gael ar y fewnwyd.

Mae ein gwefan yn ddwyieithog ac mae'r holl gynnwys newydd sy'n berthnasol i Gymru a chynulleidfaoedd ledled y DU yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg, gan gynnwys newyddion, mewnwelediadau a gwybodaeth am ein grantiau. Mae hyn yn cydymffurfio â safonau 48 a 52. Ar hyn o bryd mae'r broses o uwchraddio ein gwefan yn mynd rhagddi ac mae'r tîm Cymraeg wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r tîm Dylunio Gwasanaethau i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn wahanol i'r iaith Saesneg ar bob tudalen we berthnasol.

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu darparu gwasanaeth dwyieithog i gwsmeriaid a chydweithwyr.

Rydym ni wedi nodi isod ein llwyddiannau mewn perthynas â safonau Cyflenwi Gwasanaethau eleni:

Lansio rhaglenni ariannu newydd

Ym mis Medi y llynedd, lansiwyd y rhaglen Pawb a'i Le wedi'i hadnewyddu, ein rhaglen ariannu ar gyfer grantiau mawr. Ym mis Awst eleni, fe wnaethom lansio Meithrin Natur, rhaglen ariannu newydd i helpu gwella iechyd a lles babanod a phlant, eu teuluoedd a'u gofalmwyr ledled Cymru, drwy gysylltu â'r amgylchedd naturiol. Yn unol â safonau 33-45, mae'r holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni ar gael yn Gymraeg.

I ddysgu rhagor am y rhaglen Meithrin Natur, rydym yn cynnig gweithdai wyneb yn wyneb ledled Cymru yn ogystal â gweminarau. Yn unol â safonau 31-32, rydym wedi sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu cymryd rhan yn ddwyieithog os ydynt wedi nodi hyn fel eu dewis.

Ein rhaglen ariannu newydd Meithrin Natur



**Kids need nature.
Natur i bob plentyn.**

With funding from our Meithrin Natur programme, you could help give it to them. Gydag arian gan raglen Meithrin Natur, gallwch chi helpu i roi byd natur iddynt.

Tudalen mewnwyd Technoleg Newydd

Ym mis Mehefin, lansiodd ein tîm Technoleg eu tudalen mewnwyd wedi'i diweddarau, ffynhonnell wybodaeth werthfawr a hygyrch sydd bellach ar gael yn Gymraeg am y tro cyntaf. Mae'r dudalen yn nodi'n glir bod y wefan ar gael yn y ddwy iaith a sut i newid rhwng y ddwy, gan gydymffurfio â safon 120. Gweithiodd tîm y Gymraeg yn agos gyda chydweithwyr Technoleg i sicrhau cysondeb rhwng y ddwy iaith o ran cynnwys a dyluniad.

Croeso i'r Hwb Technoleg

Mae'r Tîm Technoleg yn darparu gwasanaethau digidol, data a thechnoleg hanfodol, gan weithredu fel partneriaid strategol allweddol i'r sefydliad.

Mae ein gwasanaethau'n cwmpasu ystod eang, gan gynnwys gwybodaeth busnes, systemau, llywodraethu, cymorth, seilwaith, diogelwch digidol a seiber, i gyd wedi'u cynllunio i ddarparu profiadau digidol eithriadol ac atebion arloesol, cynaliadwy i'r sefydliad.

Sylwch hefyd fod ein gwefan dechnoleg SharePoint gyfan yn ddwyieithog gan gynnwys Cymraeg a Saesneg, i newid rhwng y ddwy iaith dewiswch un o gornel dde uchaf pob tudalen.



Rhan o dudalen mewnwyd Technoleg newydd yn Gymraeg

Penblwydd Y Loteri Genedlaethol yn 30

Ym mis Tachwedd 2024, dathlodd y Loteri Genedlaethol ei phenblwydd yn 30. Fe wnaethom gynnal digwyddiad gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol yn y Senedd ym Mae Caerdydd i ddathlu'r garreg filltir hon, gan ddod â rhanddeiliaid, cydweithwyr a deiliaid grant at ei gilydd i ddathlu effaith yr arian hwn yng Nghymru. Ystyriwyd yr iaith Gymraeg ym mhob cam o'r dathliadau hyn, nid yn unig o ran sicrhau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu ysgrifenedig ond hefyd o ran tynnu sylw at brosiectau sydd wedi trawsnewid cymunedau Cymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith.

Fe wnaethom ni hefyd dynnu sylw at brosiectau nodedig yn ein blog, ein cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr, gan dynnu sylw at [sefydliadau Cymreig](#) fel Urdd Gobaith Cymru, sydd wedi elwa o'n cefnogaeth dros y blynyddoedd.



Ein digwyddiad penblwydd yn 30 yn y Senedd

Tynnu sylw at ein cynnwys Cymraeg

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym ni wedi pwysleisio ein cynnwys Cymraeg yn ein cylchlythyr misol sy'n cael ei anfon at dros 1,700 o danysgrifwyr. Mae'r cynnwys hwn yn amrywio o dynnu sylw at brosiectau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, dathlu dyddiadau arwyddocaol yng nghalendr Cymru a hyrwyddo ein presenoldeb mewn amryw o ddigwyddiadau.

Gan gydymffurfio â safonau 54-55, rydym ni'n sicrhau ein bod yn rhannu'r cynnwys hwn yn ddwyieithog ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook a LinkedIn.

Ein blog

Fel rhan o'r dathliadau pen-blwydd yn 30, fe wnaethom gynhyrchu cyfres o flogiau a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn dathlu'r effaith gadarnhaol y mae arian y Loteri Genedlaethol wedi'i chael ar gymunedau a'r iaith Gymraeg. Roedd y prosiectau y gwnaethom ni ganolbwyntio arnynt yn cynnwys [Mudiad Meithrin](#), [Menter Gorllewin Sir Gâr](#), [amrywiaeth o brosiectau cerddoriaeth ledled Cymru](#) a [Neuadd Trawsfynydd](#). Fe wnaethom hefyd hyrwyddo'r cynnwys hwn yn ein cylchlythyr.



Blog am Fenter Gorllewin Sir Gâr, prosiect sy'n hwyluso cyfleoedd gwaith i bobl ifanc yng nghefn gwlad Gorllewin Cymru

Cymraeg mewn digwyddiadau allanol

Yn unol â safonau 24 – 29, rydym ni'n parhau i ystyried y Gymraeg wrth gynllunio unrhyw ddigwyddiad allanol drwy roi gwybod i'r mynychwyr yn y gwahoddiad neu'r ffurflen gofrestru bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg ac rydym yn gofyn a hoffent gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn yr ymatebion, rydym ni'n sicrhau bod y trefniadau priodol ar waith. Yn ein digwyddiadau, lle mae o leiaf un person yn nodi yr hoffent ddefnyddio'r Gymraeg, rydym yn defnyddio cyfieithydd ar y pryd. Rydym ni'n agor y digwyddiad yn ddwyieithog ac yn pwysleisio y gall mynychwyr gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae rhan o'n gwaith fel ariannwr yn cynnwys mynychu cymorthfeydd ariannu a digwyddiadau'r trydydd sector ledled Cymru, megis [Gofod3](#), y digwyddiad sector gwirfoddol mwyaf yng Nghymru. Rydym ni'n sicrhau bod Swyddogion Ariannu Cymraeg ar gael i siarad ag unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno trafod cyfleoedd ariannu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Recriwtio

Mae recriwtio staff dwyieithog yn rhan bwysig o sicrhau bod ein gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu. Yn unol â safon 132, rydym ni'n asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd wag drwy gyfeirio at ein Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae hwn yn nodi faint o siaradwyr Cymraeg sydd eu hangen ym mhob tîm i fodloni Safonau'r Gymraeg. Mae gennym ni hefyd restr wirio sy'n manylu ar y protocol mewn perthynas â'r Gymraeg wrth hysbysebu swyddi, cyfweld a chyfathrebu â dechreuwyr newydd. Mae Swyddog y Gymraeg yn gweithio gyda'r tîm Pobl i sicrhau bod y prosesau hyn yn cael eu dilyn.

Mae pob rôl yng Nghymru a'r DU gyfan yn cael eu hysbysebu yn ddwyieithog a'u cyhoeddi ar yr un pryd. Rydym ni hefyd yn defnyddio gwefannau swyddi Cymraeg fel Golwg360, Lleol a Safle Swyddi ar gyfer rolau lle mae'r Gymraeg yn 'ddymunol' neu'n 'hanfodol'. Ers mis Medi 2024, mae 39 o swyddi wedi'u hysbysebu yn ddwyieithog. Nodwyd dwy o'r rolau hyn gyda'r Gymraeg yn 'ddymunol' ac un gyda'r Gymraeg yn 'hanfodol'. Rydym ni wedi recriwtio dau siaradwr Cymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf.

The Welsh language in our regions Important things to remember



Welsh Language Standards

As you know, the Fund has been operating under the Welsh Language Standards since 25 January 2017. This means it is crucial for us to always remember that we are a bilingual organisation and that we should be offering a bilingual service wherever possible.

We all have a duty to offer a bilingual service to our customers and our customers have the right to demand this from us.

Translation

Please continue to arrange for work to be translated according to the existing procedure, by sending it to translations@tnccommunityfund.org.uk so it can be translated by our Translator/ Welsh Language Officer or sent to an external translator.

If you want to translate something yourself that will be going out in the public domain, that's great, but please send it to the above e-mail address to be checked or ask a colleague to read it first.



Public events

Our events

When we arrange public events, funding fairs or one to one events, it is important that all materials we take with us are bilingual and that at least one member of our staff speaks Welsh (in some of the Welsh language strongholds in the region, we need to ensure that all members of staff attending are Welsh speakers wherever possible). See the Context and stats section

for your region for information on the Welsh language in your region.

Simultaneous translation

For large events attended by the public, we must offer a language choice to attendees in the invitation and ensure that simultaneous translation is available if needed. (If simultaneous translation is needed remember to consider from which budget this will be paid from the outset). Contact the Welsh Language Officer or

Dogfen ganllaw yr iaith Gymraeg yn ein rhanbarthau i gydweithwyr



Babi Actif, Cymru

Safonau Llundain Polisi

Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ystod eang o bolisiau sy'n esbonio sut rydym ni'n cynnal ein busnes a'n gwasanaethau. Pan fyddwn yn adolygu un o'n polisiau neu'n datblygu polisi newydd, rydym ni'n ystyried unrhyw effaith ar y Gymraeg a chyfleoedd i'w defnyddio.

Gyda phob polisi newydd, ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a byddwn yn ystyried ffyrdd y gall polisiau gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i siarad Cymraeg.

Yn yr un modd, wrth gynnal gwaith ymgynghori neu ymchwil fel rhan o ddatblygu polisi, byddwn yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg ac yn ceisio barn ar hyn.

Yn unol â safon 90, ym mis Ionawr 2020 fe wnaethom ni gyhoeddi ein polisi ar ystyried y Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau. Mae hyn wedi'i gynnwys mewn dogfen ganllaw i gydweithwyr i esbonio beth yw ein disgwyliadau o'n deiliaid grant o ran ein safonau Cymraeg.

Profi deunydd gyda chwsmeriaid

Gyda'r holl raglenni ariannu newydd neu unrhyw newidiadau i'n rhaglenni ariannu yng Nghymru neu ledled y DU, rydym ni'n profi ein deunyddiau a'n canllawiau ymgeisio gyda chwsmeriaid o Gymru.

Eleni, cyn lansio rhaglen ariannu Meithrin Natur, fe wnaethom ni brofi'r deunyddiau ymgeisio gyda chwsmeriaid yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd yr adborth a gawsom yn gadarnhaol, a byddwn yn parhau i brofi deunyddiau gydag unrhyw raglenni ariannu newydd.

Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Y llynedd, creodd y tîm Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) adnodd Asesu Effaith ar Degwch i'w ddefnyddio wrth ddatblygu unrhyw bolisi neu raglen newydd. Mae'n cefnogi cydweithwyr i ystyried goblygiadau EDI, gan gynnwys y Gymraeg, yn ystod pob cam datblygiad yn unol â dull sy'n seiliedig ar degwch a sut y gall effeithio ar grwpiau o bobl yn gadarnhaol ac yn negyddol - a rhoi camau ar waith i liniaru hyn. Rydym ni'n parhau i dynnu sylw cydweithwyr at yr adnodd hwn i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar ddechrau'r broses ddatblygu.

Mae'r hyfforddiant EDI 'Bodloni ein dyletswyddau cydraddoldeb trwy benderfyniadau ariannu' ar ein system ddysgu fewnol yn orfodol ar gyfer cydweithwyr ariannu ac mae'n cynnwys y Gymraeg fel ystyriaeth.

Safonau Gweithredu

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn sefydliad ledled y DU gyda'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau corfforaethol wedi'u lleoli mewn swyddfydd y tu allan i Gymru. Pan ddechreuodd y Gronfa weithredu o dan y safonau yn 2017, y Safonau Gweithredu oedd y mwyaf heriol i'w bodloni fel sefydliad.

Rydym ni wedi gwneud cynnydd mawr yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf, ac mae'r Gymraeg bellach wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y sefydliad gyda thimau ledled y DU yn ystyried y Gymraeg cyn creu unrhyw ymgyrch, rhaglen neu ddeunyddiau newydd. Yn unol â safon 94, rydym ni wedi datblygu polisi ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg sydd ar gael ar ein mewnwyd.



Mae Safonau Iaith yn sicrhau bod gan pobl yr hawl i ddefnyddio Gymraeg wrth gysylltu ac ymdrin â chyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi ein hymrwymio i gwrrdd â'r safonau ym mhob agwedd o'n gwaith.

Egwyddor

Rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal bob amser yn ein gwaith yng Nghymru. Rydym yn cydnabod hawl unigolion i gynnal eu busnes a byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Sut y gallwch gysylltu gyda ni yn Gymraeg neu Saesneg?



Byddwn yn

- cyfathrebu gyda chi yn Gymraeg ac yn Saesneg
- cyhoeddi pob peth mewn print ac ar-lein yn ddwyieithog yng Nghymru
- sicrhau na fydd oedi wrth ymdrin â cheisiadau Gymraeg am grantiau
- parchu a chofio eich dewis iaith
- hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni

Gallwch chi

- gysylltu â ni yn Gymraeg ac yn Saesneg
- gwneud cais am arian trwy gyfrwng y Gymraeg
- siarad wyneb yn wyneb gyda ni yn Gymraeg neu Saesneg
- gwyno wrthym yn Gymraeg neu yn Saesneg os yw pethau yn mynd o chwith

Rydym ni'n sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'u hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith wrth ddechrau eu swydd yn y Gronfa. Yn unol â'r polisi hwn a safon 95, mae eu contract swydd yn cael ei gynnig yn Gymraeg a gellir darparu unrhyw ohebiaeth, dogfennau a ffurflenni ar ôl hynny hefyd yn Gymraeg (safonau 96-100). Mae'r holl bolisiau mewnol yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, gan gydymffurfio â safonau 101-107. Rydym ni'n gweithio'n agos gyda'r tîm Pobl sy'n rhoi gwybod am unrhyw bolisiau neu ddiweddariadau newydd i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfieithu'n brydlon i'r Gymraeg cyn eu bod nhw ar gael i gydweithwyr.

Hwb Pobl

Mae gennym ni system Adnoddau Dynol fewnol yn y Gronfa lle gall cydweithwyr gofnodi eu hamcanion perfformiad, gweld eu manylion cyflogaeth a chofnodi gwyliau blyneddol ac unrhyw absenoldeb arall o'r gwaith i gyd ar un system. Enw'r system hon yw Hwb Pobl. Mae Hwb Pobl ar gael yn yr iaith Gymraeg yn ei gyfanrwydd ac mae'n cael ei ddefnyddio'n eang ymhlith ein cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio'n llawn â safonau 98 a 100.

Polisi mewnol 'Yr iaith Gymraeg...ein haddewid i chi' ar ein mewnwyd

Asesu sgiliau Cymraeg cydweithwyr

Yn unol â safon 123, rydym ni'n anfon holiadur at gydweithwyr bob blwyddyn i asesu faint o gydweithwyr all ddefnyddio'r Gymraeg ac ar ba lefel. Mae'r cwestiynau yn gofyn pa mor hyderus maen nhw'n siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Rydym ni hefyd yn gofyn am adborth ar unrhyw adnoddau yr hoffai cydweithwyr i ni eu darparu i'w cefnogi i ddysgu Cymraeg neu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Dosbarthwyd yr holiadur ym mis Awst eleni ac fe'i cwblhawyd gan 28 o gydweithwyr. Cwblhaodd 10 o gydweithwyr yr holiadur drwy gyfrwng y Gymraeg, a chwblhaodd 18 o gydweithwyr yr holiadur yn Saesneg.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod nifer o'n cydweithwyr yn teimlo'n hyderus yn eu sgiliau gwrando a darllen Cymraeg gyda 12 yn cytuno â'r datganiad "Gallaf ddeall y mwyafrif o destunau Cymraeg cymhleth a syml" ac 11 yn cytuno â'r datganiad "Gallaf ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth rhwng eraill, ar bob math o bynciau". Mae nifer y cydweithwyr sy'n teimlo'n hyderus wrth siarad ac ysgrifennu ychydig yn is, gyda 10 yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n teimlo'n ddigon hyderus i gynhyrchu adroddiad / adroddiad asesu / dogfen ymateb i ymgynghoriad yn Gymraeg" a 10 yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n mynegi fy hun yn llawn ac yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth".

Yn yr holiadur, cafodd cydweithwyr gyfle i roi adborth ar ba adnoddau neu wasanaethau yr hoffent eu derbyn i ddefnyddio eu Cymraeg yn fwy yn y gweithle. Cawsom sylwadau cadarnhaol am y sesiynau sgwrsio anffurfiol wythnosol a gynhelir rhwng ein dysgwyr, Swyddog y Gymraeg a'n cyfieithydd. Maen nhw'n awyddus i'r rhain barhau. Hoffai'r rhai sy'n mynychu cyrsiau Dysgu Cymraeg barhau i fynychu.

Nododd un cydweithiwr y byddent yn hoffi mwy o ddosbarthiadau Cymraeg ffurfiol yn y gwaith i ddysgu mwy o derminoleg a fyddai'n berthnasol ac yn ddefnyddiol yn eu rôl. Mynegodd cydweithiwr arall yr hoffent gael mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg yn anffurfiol mewn cyfarfodydd Teams. Nododd cydweithiwr arall y byddent yn hoffi cael cefnogaeth yn eu sgiliau siarad bob dydd ar ôl colli hyder.

Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau hyn wrth i ni barhau i wella ein cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr.

Dysgwyr Cymraeg yn y Gronfa

Yn unol â safonau 125-127, rydym ni'n annog cydweithwyr i ddysgu neu wella eu Cymraeg yn y Gronfa gyda nifer o gyfleoedd gwahanol, boed hynny mewn cwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn, dosbarth wyneb yn wyneb wythnosol, cwrs ar-lein neu gwrs hunan-ddysgedig. Rydym ni'n gweithio'n agos gyda [Dysgu Cymraeg](#) ac rydym ni'n trafod yr opsiynau sydd ar gael i gydweithwyr ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau iaith yn y cyfnod sefydlu i ddechreuwyd newydd.

Mae naw cydweithiwr yn y Gronfa yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, gyda dau ohonynt wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Rydym ni wedi parhau â'r momentwm o helpu ein cydweithwyr i ddysgu Cymraeg gan fod ein cyfieithydd mewnol a'n Swyddog Iaith Gymraeg wedi cynnal sgysiau anffurfiol wythnosol drwy Teams i'n dysgwyr. Rydym ni'n defnyddio adnoddau Dysgu Cymraeg i gynorthwyo'r sgysiau ac mae tri o'n dysgwyr wedi mynychu cyrsiau ffurfiol Dysgu Cymraeg eleni.

Mae adnoddau yn cael eu rhannu gyda'r grŵp dysgwyr fel erthyglau newyddion gyda geirfa i ddysgwyr, podlediadau, sioeau radio, rhaglenni teledu gydag isdeitlau a manylion grwpiau sgwsio a digwyddiadau Cymraeg lleol ledled y DU.

Mae gennym ni hefyd sianel Teams bwrpasol i'n dysgwyr, lle gallant rannu llwyddiannau, gofyn cwestiynau ac ymarfer eu Cymraeg ysgrifenedig. Mae sianel Teams ar wahân ar gael i siaradwyr rhugl, sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith a thrafod unrhyw faterion ieithyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith, er enghraifft ymholiadau terminoleg.

Hyfforddiant Mewnol

Mae'n ofynnol i bob cydweithiwr gwblhau'r dystysgrif hyfforddi 'Hanfodion yn y Gweithle' pan fyddant yn ymuno â'r Gronfa, ac yna ymgymryd â hi eto bob blwyddyn. Mae cyfanswm o naw cwrs i'w cwblhau ar ein system rheoli dysgu fewnol, ac maen nhw ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys: Cod Moeseg; Diogelu Data (GDPR, FOI); Iechyd a Diogelwch (DSE a Diogelwch Tân); Diogelu; Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant; Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg; Ymwybyddiaeth o wrth-dwyll a llygredd; Ein Fframwaith Statudol a Rheoleiddio; a Diogelwch TG.


Eleni rydym ni wedi dechrau ymgorffori sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ein hyfforddiant Sefydlu Corfforaethol, sesiwn hyfforddi fisol ar gyfer pob aelod o staff newydd yn y Gronfa. Mae'r sesiwn ryngweithiol hon yn darparu cyd-destun hanesyddol y Gymraeg yn ogystal â gwybodaeth am ddeddfwriaeth a sefyllfa'r iaith heddiw. Mae hyn yn orfodol ar gyfer pob aelod o staff newydd ledled y DU.

Felly, rydym ni'n bodloni safon 124 o ran darparu'r holl hyfforddiant hanfodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cwblhaodd dau gydweithiwr y dystysgrif 'Hanfodion yn y Gweithle' drwy gyfrwng y Gymraeg eleni. Byddwn yn anelu at gynyddu'r nifer hwn y flwyddyn nesaf drwy atgoffa cydweithwyr bod yr hyfforddiant hwn ar gael yn Gymraeg.

Ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymreig a phwysigrwydd y safonau

Yn unol â safon 128, mae ein modiwl ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'i gynnwys yn yr hyfforddiant Hanfodion y Gweithle ac mae'n ofynnol iddo gael ei gwblhau'n flynyddol gan bawb yn y sefydliad ledled y DU. Mae'r modiwl yn ymdrin â hanes yr iaith, ei sefyllfa heddiw ac felly ei phwysigrwydd i ni fel sefydliad dwyieithog ledled y DU.

Yn unol â safon 129, mae pob cydweithiwr ac aelod o'r pwyllgor newydd yng Nghyfarwyddiaeth Cymru yn cael sesiwn sefydlu gyda Swyddog y Gymraeg. Yn y sesiwn hon, rydym ni'n trafod ein dyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae Swyddog y Gymraeg yn parhau i nodi timau ar draws y Gronfa a allai elwa o hyfforddiant wedi'i adnewyddu, a bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu dros y flwyddyn i ddod oherwydd newidiadau i'r tîm.



Rhan o'r cyflwyniad Sefydlu Corfforaethol am Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Er mwyn hyrwyddo diwylliant Cymru a'r iaith, rydym ni'n dathlu diwrnodau a digwyddiadau Cymraeg yn fewnol yn y Gronfa, yn ogystal â chynnal ymgyrchoedd cyfathrebu allanol ar y cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr:

Diwrnod Shwmae/Su'mae (15 Hydref)

Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom ni ddefnyddio Diwrnod Shwmae/Su'mae fel cyfle i gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg. Fe wnaethom ni ysgrifennu [blog](#) yn crynhoi'r adroddiad a rhannu dyfyniad gan Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg, ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

O ystyried bod gwaith y Gronfa Gymunedol yn cyrraedd pob cwr o'n cymdeithas ni yma yng Nghymru, mae'n hollbwysig fod y gwasanaethau yn cael eu cynnig yn newis iaith eu cwsmeriaid. Mae'n braf gweld fod y Gronfa yn ceisio ehangu yn gyson ar ei darpariaeth ddwyieithog, yn fewnol ac allanol, a hoffwn ei llongyfarch ar ei hymdrechion a dymuno'n dda iddynt i'r dyfodol.

Given that the work of the Community Fund reaches all corners of our society here in Wales, it is vital that their services are offered in their customers' preferred language. It is great to see that the Fund is constantly seeking to expand its bilingual provision, both internally and externally, and I congratulate them on their efforts and wish them well for the future.

~ Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Dyfyniad gan Efa Gruffudd Jones yn dilyn cyhoeddiad ein hadroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg

Dydd Miwsig Cymru (7 Chwefror)

I ddathlu Dydd Miwsig Cymru, fe wnaethom ni ysgrifennu [blog](#) yn tynnu sylw at ein deiliaid grant yng Nghymru sy'n defnyddio cerddoriaeth er budd eu cymunedau, gan gynnwys Soel Connect yng Nghaerdydd, Canolfan Gerdd William Mathias yng Ngwynedd, Rhythm of Life Therapies C.I.C. yn Sir Benfro a Chwmni Theatr Maldwyn yng nghanolbarth Cymru. Rhannwyd y blog ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr.

Dydd Gŵyl Dewi (1 Mawrth)

Fe wnaethom ni ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn fewnol yn y Gronfa gyda'n Eisteddfod flynyddol i hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg gyda'n cydweithwyr ar draws y sefydliad. Fe wnaethom hefyd rannu'r digwyddiad yn allanol ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Eisteddfod Dydd Gŵyl Dewi

4.3.2025

Cystadlaethau

Celf

Delwedd sy'n cynrychioli cymuned

Coginio

Cyflwyno rysâit Gymreig gyda llun o'r bwyd

Cerdd

Cerdd ar thema'r amgylchedd

Limerig

'Unwaith ar ymweliad asesu...'

Ysgrifennu creadigol i ddysgwyr

Darn byr am eich hoff wyliau

I'w gyflwyno yn yr Eisteddfod

- Ffaith am Gymru
- Cyflwyniad o'ch hoff gerdd Gymraeg
- Hoff jôc Gymraeg

Competitions

Art

An image that represents community

Cooking

Presentation of a Welsh recipe with an image of the food

Poem

A poem on the theme of environment

Limerick

'Once on an assessment visit...'

Creative writing for learners

A short piece on your favourite holiday

To present at the Eisteddfod

- A fact about Wales
- A presentation on your favourite Welsh poem
- Favourite Welsh joke

Anfonwch eich cyflwyniadau/bwriad i gystadlu at Megan Martin **erbyn 12yp ar Ddydd Llun 3 Mawrth**.
Please send your submissions/intentions to compete to Megan Martin **by 12pm on Monday 3 March**.

Rhestr y cystadlaethau ar gyfer ein Eisteddfod fewnol flynyddol ym mis Mawrth

Wythnos Cynnig Cymraeg (12 – 16 Mai)

Ym mis Mai, fe wnaethom ddathlu wythnos Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg, a oedd yn gyfle i ddathlu sefydliadau sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth swyddogol am eu cynllun iaith Gymraeg cryf. Fe wnaethom ni rannu post ar y cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at ein deiliad grant O Ddrws i Ddrws, sy'n cynnig trafndiaeth gymunedol a digwyddiadau cymdeithasol i bobl ym Mhen Llŷn sydd angen y gwasanaeth oherwydd oedran, iechyd neu anabledd.





"Roedd mynd am gydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg yn reswm i ni adolygu a chryfhau ein polisi iaith ac i gael y polisi diwygiedig hwnnw wedi'i wirio gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg".

"Going for the Cynnig Cymraeg recognition was a reason to review and strengthen our language policy and to have that amended policy checked by the Welsh Language Commissioner's office".

- Wil Parry
Rheolwr Prosiect O Ddrws i Ddrws Project Manager



Post ar y cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at gynllun iaith Gymraeg cryf y prosiect

Safonau Cadw Cofnodion

Er mwyn cydymffurfio â'n safonau cadw cofnodion (Safonau 141-148), rydym ni'n cadw cofnodion o'r canlynol:

- Cwynion rydym ni'n eu derbyn mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'n bleser gennym nodi nad ydym wedi derbyn unrhyw gwynion am y Gymraeg eleni.
- Sgiliau iaith cydweithwyr yn dilyn yr holiadur sgiliau Cymraeg ac unrhyw adborth ynglŷn ag adnoddau dysgu Cymraeg i'w darparu.
- Nifer y cydweithwyr sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddi sy'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg.
- Asesiadau rydym ni'n eu cynnal mewn perthynas â sgiliau Cymraeg a allai fod eu hangen ar gyfer swydd newydd neu wag a faint o rolau sy'n gofyn am y Gymraeg fel sgil 'hanfodol' neu 'ddymunol'.
- Nifer y deiliaid grant sy'n mynychu ein sesiynau 'Dwyieithrwydd ar Waith' mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg.



Longwood Community Woodland, Cymru

Hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein grantiau

Gan mai prif bwrpas Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw darparu grantiau i'n cymunedau, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod deiliaid ein grantiau yn rheoli eu prosiectau yn ddwyieithog i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru.

O'r cychwyn cyntaf, rydym ni'n pwysleisio ein disgwyliad i unrhyw brosiectau yng Nghymru gyflawni eu prosiectau yn ddwyieithog fel un o delerau eu grant, gan sicrhau y gall cymunedau ymgysylltu â phrosiectau yn yr iaith o'u dewis. Gellir cynnwys costau ar gyfer gwasanaethau dwyieithog, megis cyfieithu deunyddiau hyrwyddo, mewn cyllidebau arfaethedig. Rydym ni'n annog ymgeiswyr i ddarllen ein [canllawiau](#) ar ddwyieithrwydd a Safonau'r Gymraeg, yn ogystal ag ymgynghori â chymunedau Cymraeg wrth gynllunio eu prosiect. Mae Swyddog y Gymraeg ar gael i gynghori ymgeiswyr ar reoli eu prosiectau yn ddwyieithog cyn y broses ymgeisio ac ar ôl eu dyfarniad grant llwyddiannus.

Yn unol â safon 90, dyma rai pethau ychwanegol yr ydym ni wedi'u gwneud eleni i sicrhau bod ein deiliaid grant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal ac yn ystyried pa effaith y mae eu grant yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg:

Sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith

Mewn cydweithrediad â staff Comisiynydd y Gymraeg, rydym ni wedi parhau i ddarparu hyfforddiant i'n deiliaid grant ar sut i reoli eu prosiectau yn ddwyieithog. Cynhaliwyd y sesiynau ym mis Tachwedd 2024 ac Ebrill 2025. Yn y sesiynau rydym ni'n esbonio ein gofynion grant o ran yr iaith Gymraeg. Mae tîm y Comisiynydd hefyd yn darparu cyngor ar ddylunio dwyieithog ar gyfer posteri a'r cyfryngau cymdeithasol a'r adnoddau sydd ar gael i helpu gyda chyfieithu a phrawf-ddarllen. Eleni, fe wnaethom ddechrau cydweithio â Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ystod y sesiynau hyn, gan ganiatáu i ddeiliaid grant rwydweithio a rhannu arfer da o ran darpariaeth ddwyieithog. Mae'r sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith nesaf wedi'u trefnu ar gyfer mis Tachwedd 2025.

Gwyliau Cymreig

Rydym ni wedi parhau i gefnogi a mynychu gwyliau Cymreig sy'n hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant drwy ein grantiau a'n gwaith allgymorth:

Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr, Parc Margam (26 - 31 Mai 2025)

Yn ystod Eisteddfod yr Urdd, gŵyl ieuenctid Gymraeg flynyddol o gerddoriaeth, llenyddiaeth a'r celfyddydau perfformio a drefnir gan Urdd Gobaith Cymru, fe wnaethom ni rannu post ar y cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at brosiect lleol sy'n cael ei redeg gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot. Mae'r gweithdai cerddoriaeth yn Ystradgynlais yn creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau profiadau cymunedol a chael mynediad at fannau diogel i gymdeithasu a chael cefnogaeth, sy'n unol ag un o nodau ein [strategaeth](#).

Yr Eisteddfod Genedlaethol, Wrecsam (2 - 9 Awst)

Eleni cawsom gyfle i rannu stondin gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam am dridiau. Roedd yn gyfle da i roi cyngor ariannol i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg ac i rwydweithio gydag elusennau a sefydliadau Cymreig yn Hwb y Trydydd Sector. Fe wnaethom ni hefyd gynnal stondin wybodaeth mewn derbyniad gyda'r nos a gynhaliwyd gan y Gronfa Dreftadaeth, a oedd yn gyfle i gwrdd â staff eraill y Loteri Genedlaethol, rhwydweithio â chydweithwyr a rhanddeiliaid y sector ac i glywed gan sefydliadau lleol y mae eu prosiectau wedi'u gwneud yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.



Cydweithwyr Eirian Jones, Llinos Alun a Rachel Richards wrth stondin Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam

Prosiectau Cymraeg nodedig a ariannwyd eleni

Rydym ni'n cefnogi sefydliadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Gweler isod rai enghreifftiau o brosiectau Cymraeg yr ydym wedi'u cefnogi eleni:

Fe wnaeth **Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy** dderbyn grant o £20,000 i drefnu 8 gŵyl Gymraeg ym Mlaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy yn ogystal â chyflwyno clwb ar ôl ysgol goedwig. Bydd y gwyliau hyn yn dod â chymunedau Cymraeg a di-Gymraeg at ei gilydd.

Fe wnaeth **Sefydliad Queer Emporium C.I.C.** yng Nghaerdydd dderbyn grant o £98,859 i ehangu ei raglen gymunedol sy'n anelu at fynd i'r afael ag anghenion y gymuned LHDTG+ leol a chynyddu amlygrwydd y Gymraeg yn y gymuned.

Mae **Beuno Sant Uwch Gwyrfa**i yng Ngwynedd yn defnyddio grant o £19,920 i gynnig profiad gwaith mewn gweithgareddau garddio a chadwraeth sydd wedi'u hanelu'n benodol at bobl sy'n awyddus i wella sgiliau Cymraeg.

Mae **Pobl yn Gyntaf Cwm Taf** yn Rhondda Cynon Taf wedi defnyddio grant o £19,948 i ddarparu gwersi mewn mathemateg a'r Gymraeg drwy weithdai cerddoriaeth i bobl ag anableddau dysgu. Daeth y prosiect i ben gyda pherfformiad gan gyfranogwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam.

Casgliad ac argymhellion

Roedd yr adroddiad hwn yn gyfle i edrych yn ôl ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn 2024-2025. Yn yr adroddiad, fe wnaethom edrych ar safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llundio Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion. Fe wnaethom hefyd edrych ar sut rydym ni wedi hyrwyddo diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg trwy ein grantiau a'n gwaith allgymorth. Mae'r Gronfa wedi parhau i ddatblygu'r Gymraeg a'i gwasanaethau dwyieithog, ac rydym wedi gwneud rhywfaint o newidiadau cadarnhaol. Rydym ni'n falch o'r ddarpariaeth Gymraeg yr ydym ni'n ei chynnig yn fewnol ac yn allanol.

Dros y flwyddyn nesaf, awgrymir ein bod yn blaenoriaethu'r canlynol:

- **Gwefan newydd** – Ar hyn o bryd mae gwaith diweddarau yn mynd rhagddo i'n prif wefan. Mae tîm y Gymraeg wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r tîm Dylunio Gwasanaethau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar ddechrau'r broses a byddant yn parhau i wneud hynny i sicrhau cydraddoldeb rhwng y tudalennau Cymraeg a Saesneg. Bydd hyn yn cydymffurfio â safonau 48 a 52.
- **Parhau i annog cydweithwyr i ddysgu Cymraeg** – Byddwn yn parhau i gynnal y berthynas â Dysgu Cymraeg ac yn rhannu'r cyrsiau sydd ar gael yn gyson gyda chydweithwyr. Bydd y dull hwn yn helpu cynnal y momentwm yr ydym wedi'i greu o ran datblygu sgiliau iaith Gymraeg ein cydweithwyr. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal y sgysiau Cymraeg anffurfiol rhwng Swyddog y Gymraeg, ein cyfieithydd mewnol a'n dysgwyr. Byddwn yn defnyddio gwybodaeth ac adnoddau a ddarperir gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- **Annog mwy o gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg i gwblhau eu hyfforddiant mewnol 'Hanfodion y Gweithle' drwy gyfrwng y Gymraeg** – Hoffem gynyddu nifer y cydweithwyr sy'n cwblhau'r hyfforddiant hwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn paratoi gohebiaeth i atgyfnerthu i gydweithwyr bod yr holl fodiwlau hyfforddiant mewnol ar gael yn Gymraeg a'u bod yn cael eu hannog i'w cwblhau yn Gymraeg os ydynt yn gallu gwneud hynny.
- **Parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i dimau ledled y DU ar Safonau'r Gymraeg** - Bydd Swyddog y Gymraeg yn nodi timau ledled y DU ac yn darparu hyfforddiant i'w diweddarau ar y safonau, yn ogystal â diweddarau ein rhanbarthau yng Nghymru yn rheolaidd. Byddwn hefyd yn parhau i ymgorffori sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ein hyfforddiant Sefydlu Corfforaethol ar gyfer pob cydweithiwr newydd ledled y DU.
- **Parhau i ystyried y Gymraeg wrth recriwtio** – Byddwn yn parhau i hysbysebu unrhyw rolau yng Nghymru neu ledled y DU yn ddwyieithog ac yn asesu'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer y rôl er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wella ein cynnig dwyieithog fel ariannwr.

- **Parhau i ddarparu cefnogaeth i'n prosiectau** – Ar ôl derbyn adborth cadarnhaol yn dilyn ein sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith eleni, rydym ni'n bwriadu parhau â'r hyfforddiant hwn i'n deiliaid grant dair gwaith y flwyddyn mewn partneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.
- **Parhau i hyrwyddo diwylliant Cymru** – Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, mae'r Gronfa yn hyrwyddo diwylliant Cymru drwy ddyddiau a gwyliau Cymreig. Rydym ni'n bwriadu parhau i ddathlu'r dyddiau hyn yn y flwyddyn i ddod. Yn ogystal, mae'n bwysig i ni barhau i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ein grantiau a hyrwyddo prosiectau Cymraeg drwy ein cyfryngau cymdeithasol, ein blog a'n cylchlythyr. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo diwylliant Cymreig yn fewnol.



Datblygu Egni Gwledig, Cymru

Atebolrwydd

Os hoffech gysylltu â ni ynglŷn â Safonau'r Gymraeg neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, anfonwch e-bost i cymorthcymraeg@cronfagymunedolylg.org.uk



Llangorse Community Shop, Cymru